OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 806 (Cy.113) (C.21)

TIROEDD COMIN, CYMRU

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - 9 Mawrth 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r awdurdod gwladol priodol(**1**) gan adran 56(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(**2**):

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Darpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2012

2. Mae adran 46 (pwerau sy'n ymwneud â gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012.

Alun Davies
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru.

9 Mawrth 2012

(**1**) *Gweler* adran 61(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 am ystyr "*appropriate national authority*". Mae swyddogaethau'r "*appropriate national authority*" yn arferadwy, o ran Cymru, gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2006 p. 26.